Meddwl yn **Ddoeth** Heneiddio'n **Dda**

think **wise** age **well**

recognise
respond
refer

# Aydych chi'n cael cyswllt gydag oedolion hŷn sy'n cael eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau?

A fyddai gennych chi ddiddordeb mewn dysgu sut i ddarparu hyfforddiant arbenigol yn eich ardal leol chi?

Trwy gyfrwng ein hyfforddiant AM DDIM, byddwn yn dysgu sut i ddarparu cyrsiau llawn gwybodaeth a chynorthwyo gwasanaethau lleol ynghylch sut i adnabod, ymateb i a chyfeirio oedolion hŷn sy'n cael problemau camddefnyddio sylweddau.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn mynychu'r cyrsiau Hyfforddi'r Hyfforddwr pwrpasol hyn a fydd yn eich galluogi i ddarparu hyfforddiant ynghylch camddefnyddio sylweddau ac oedolion hŷn, bydd angen eich bod yn meddu ar sgiliau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth sylfaenol o gamddefnyddio sylweddau.

**Nid oedd 4 o bob 5**



**OEDOLYN DROS 50 OED,**
y maent mewn perygl oherwydd eu harferion yfed,
**FYTH WEDI WYNEBU CWESTIYNAU GAN EU**
**teulu, eu ffrindiau neu weithwyr iechyd**
AM EU HARFERION YFED

## Yng Nghymru, mae’r boblogaeth sy’n heneiddio (dros 50 oed) yn fwy sylweddol nag y mae mewn unrhyw ran arall o’r DU, a rhagwelir y bydd yn codi i 41 y cant erbyn 2020.

Nodwyd hefyd bod y grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o wynebu problemau camddefnyddio sylweddau nag unrhyw grŵp oedran arall, gan roi mwy o alwadau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Yfed Doeth, Heneiddio’n Dda yn adrodd na all 74 y cant o’r ymatebwyr (dros 50 oed) i’w harolwg a gynhaliwyd ar draws y DU, nodi’r terfynau yfed a argymhellir.

Nododd adroddiad APoSM ynghylch Camddefnyddio Sylweddau ymhlith Poblogaeth sy’n Heneiddio, bod 87 y cant o bobl yng Nghymru sy’n 65 oed a throsodd yn adrodd eu bod yn cymryd meddyginiaeth presgripsiwn yn rheolaidd am flwyddyn neu fwy.

Dysgwch sut i adnabod, ymateb i a chyfeirio a helpu i gynorthwyo’r rhai yn eich cymuned sy’n cael eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hyfforddiant, cysylltwch â chydlynydd y prosiect ar
**Jamie.bradbourne@barod.cymru | 07585 703131**

Am fanylion pellach ynghylch Meddwl yn Ddoeth, Heneiddio’n Dda, defnyddiwch y ddolen ganlynol:
**http://dacw.co.uk/cy/meddwl-yn-ddoeth/**